




**HEDDLU
GWENT
POLICE**



DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

2022 | 2023



DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN 2022-2023

Yn unol ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod eu cyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o achosion o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod i'r cyrff perthnasol am achosion neu bryderon o'r fath. Ategir y datganiad hwn gan gynllun gweithredu lleol.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2022 i ganfod, atal a rhoi sylw i gaethwasiaeth fodern ar draws yr heddlu a'i gadwyni cyflenwi.

BETH YW CAETHWASIAETH FODERN?

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae'n dod ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, cam-fanteisio rhywiol, llafur gorfodol a masnachu pobl, a'r hyn sy'n gyffredin rhwng y rhain i gyd yw bod rhywun yn amddifadu rhyddid unigolyn er mwyn cam-fanteisio arno er budd personol neu fasnachol.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn ymroddedig i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn rhan o gadwyni cyflenwi'r heddlu neu yn unrhyw ran o'r busnes. Mae polisïau, gweithdrefnau a'n gwaith i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern trwy weithgor yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesebol, gydag uniondeb ac i ganfod risgiau y gallwn weithio i'w lliniaru.

Yn 2017, ymrwymodd comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid y pedwar heddlu yng Nghymru i God Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

Mae Heddlu Gwent yn gwbl ymroddedig i frwydro yn erbyn arferion cyflogaeth anfoesebol neu anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi. Mae cynllun gweithredu i gyflawni'r ymrwymadau yn y Cod yn ategu'r ymroddiad hwn.

Gellir rhannu ein dull o ganfod a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn bedwar prif faes:

Gorfodaeth – byddwn yn sicrhau gorfodaeth ac yn defnyddio ein swyddogaethau cyflogi a phrynu nwyddau a gwasanaethau i wella'r gwaith o gasglu cudd-wybodaeth a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod Ymarfer, yn ogystal â gweithredu'n brydlon ar ôl derbyn gwybodaeth.

Caffael moesebol – hybu datblygu cadwyni cyflenwi moesebol wrth gyflenwi contractau ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru yn gyffredinol ac yn benodol yng Ngwent.

Cyflogaeth - dilyn arfer gorau a dangos ymrwymiad llwyr i welliant parhaus o fewn systemau a strwythurau Heddlu Gwent, yn ogystal â gweithio gyda'r heddluoedd eraill yng Nghymru a gyda phartneriaid i ganfod a dileu unrhyw ffurf ar gam-fanteisio.

Amgylchedd - byddwn yn creu amgylchedd lle mae'r cyhoedd yng Nghymru yn hyderus ac yn deall sut i adrodd am unrhyw arwyddion o gam-fanteisio yn ei holl ffurfiau.

Rydym yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n ffiniau cenedlaethol a bod risgiau'n cynyddu gyda chadwyni cyflenwi cymhleth. Er bod mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth plismona gan bob heddlu, mae'n gydnabyddedig y gall caethwasiaeth fodern ymestyn trwy unrhyw gadwyni cyflenwi a bod gennym gyfrifoldeb i roi sylw i hyn.

Mae adolygiad dechreuol o'n cadwyni cyflenwi wedi dangos risg posibl o gaethwasiaeth fodern yn y categorïau canlynol:

- **gwybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg**
- **adeiladu**
- **gwasanaethau glanhau a gwaredu gwastraff**
- **cynhyrchu lifrai**

Rydym yn sylweddoli y gall caethwasiaeth fodern ddigwydd, ai'i fod yn digwydd, mewn nifer o gategoriâu eraill ac rydym yn mapio ein cadwyni cyflenwi yn defnyddio dull asesu risg i ganfod y meysydd y dylem fod yn eu blaenoriaethu yn rhan o'n hymateb ymarferol i risgiau caethwasiaeth fodern.

Mae ymchwilio'n drwyadl i gadwyni cyflenwi'n waith cymhleth ond rydym eisoes wedi cyhoeddi holiaduron asesu cyflenwyr i 60 o gyflenwyr ac wedi adolygu 50 contract y nodwyd eu bod yn rhai risg uwch oherwydd y math o ddiwydiant, natur y gweithlu, lleoliad y cyflenwr, y math o nwyddau neu lefel ein gwariant.

Rydym wedi ymroi i rannu gwybodaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau. Trwy weithio gyda heddluoedd eraill, gallwn ymchwilio'n fwy trwyadl i gadwyni cyflenwi yn seiliedig ar y risg mwyaf o gam-fanteisio ar bobl.

Byddwn yn parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth o faterion caethwasiaeth fodern ledled ein cadwyn gyflenwi. Mae ein cynllun gweithredu'n cynnwys targed i asesu'r 100 uchaf o gyflenwyr ar draws Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent erbyn 2025 ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni hyn.

POLISIÂU

Nod polisi Caethwasiaeth Fodern yr heddlu, a bennwyd gan y tîm Prif Swyddogion, yw lleihau'r risg o niwed difrifol i ddiodefwyr a gwella eu diogelwch, iechyd a lles.

Mae'r polisi'n amlinellu sut y bydd troseddau caethwasiaeth fodern yn cael eu trin a sut y bydd troseddwyr yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd. Ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gorff arall, byddwn yn ymdrechu i erlyn troseddwyr yn llwyddiannus, gyda'r nod o wella ymddiriedaeth a hyder diodefwyr.

Darperir hyfforddiant cadarn i bob swyddog, sy'n tynnu sylw at arwyddion, proses, gofal diodefwyr a gwasanaethau cymorth.

Mae'r Strategaeth Masnach a Chaffael Cydweithredol ar y Cyd 2020-2025 yn corffori polisi caffael cyfrifol. Mae'r polisi'n cynnwys ein hymroddiad a gweithgareddau i roi Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru ar waith, ac egwyddorion

prynu moesegol. Ymysg y polisiâu perthnasol eraill mae Cod Moeseg y Coleg Plismona a'n polisi Chwythu'r Chwiban

DIWYDRWYDD DYLADWY AC ASESU RISG

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod Ebrill 2021-Mawrth 2022 i roi sylw i arferion cyflogaeth anfoesegol ac anghyfreithlon yn ein cadwyni cyflenwi a cheir crynodeb o'r gwaith isod: :

Datblygu polisiâu

- Mae ein Polisi Buddiannau Busnes wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru. Rhaid i swyddogion a staff fod yn ymwybodol o'r Cod wrth gyflwyno cais am gymeradwyaeth i fuddiant busnes.
- Mae polisi recriwtio newydd yn cael ei ddatblygu i gynnwys cyfeiriad at God Ymarfer Llywodraeth Cymru a chyfeiriad penodol at gyflogaeth foesegol.
- Mae ein Polisi Buddiannau Busnes wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru. Rhaid i swyddogion a staff fod yn ymwybodol o'r Cod wrth gyflwyno cais am gymeradwyaeth i fuddiant busnes.

Gweithdrefnau caffael

- Lle y bo'n briodol, drwy ein prosesau tendro, byddwn yn gofyn i gyflenwyr a darpar gyflenwyr sicrhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw un o'r ffurfiau o gaethwasiaeth fodern yn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Byddwn yn disgwyl i'n cyflenwyr gymryd cyfrifoldeb dros geisio sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.
- Cynnwys cwestiwn arferion gwaith teg lle y bo'n briodol ac yn gymesur
- Ychwanegu hawl i ymchwilio a sefydlu atebolrwydd at delerau ac amodau contract ac ymrwymiad gan y cynigydd llwyddiannus y bydd yn cwblhau holiadur asesu i sefydlu llinell sylfaen lle y bo gofyn.
- Rhannu arfer gorau gyda heddluoedd Cymru a chyhoeddi holiaduron cadwyni cyflenwi moesegol yn rhan o'n cytundebau cydweithio.

Ystadegau Perfformiad o ran Taliadau

- Mae ystadegau perfformiad o ran talu anfonebau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn unol â'r gofyniad statudol.

Asesu cyflenwyr a chadwyni cyflenwi presennol

- Datblygu'r holiadur ar gyfer asesu cyflenwyr ymhellach
- Dadansoddiad rheolaidd o wariant i ganfod cyflenwyr risg uwch a defnyddio'r dull asesu risg
- Mapio ein cadwyni cyflenwi - rydym wedi cysylltu â 60 o'n cyflenwyr risg uwch ac mae 50 o gyflenwyr wedi cwblhau holiaduron asesu cyflenwyr hyd yn hyn ac wedi



cael sgôr cadwyni cyflenwi moesegol. Defnyddir y sgôr hon fel llinell sylfaen i fonitro gwelliannau gan y cyflenwr yn rhan o weithgarwch rheolaidd i reoli contractau.

- Gweithio gyda Police Digital Service i ddeall y gefnogaeth y gall ei chynnig gyda gwaith ymchwilio i gadwyni cyflenwi sy'n cyflenwi ar gyfer yr heddlu. Bydd hyn o fudd i bob heddlu yng Nghymru a Lloegr.
- Siarad gyda Bluelight Commercial a'r Heddlu Metropolitaidd i ystyried sut y gellir rhannu gwaith cysylltiedig ag ymchwilio i gadwyni cyflenwi moesegol gyda chyflenwyr cyffredin

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

- Hyfforddiant diweddar blynyddol Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS) yn cael ei ddarparu gan staff caffael strategol
- Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru oedd yr heddluoedd peilot ar gyfer hyfforddiant rheoli contractau a ddarperir gan Bluelight Commercial. Cafodd yr hyfforddiant dderbyniad da ac mae ar gael i heddluoedd eraill. Y bwriad yw y bydd mwy o swyddogion a staff Heddlu De Cymru yn mynychu sesiynau yn y dyfodol fel rhan o fusnes arferol.
- Hyfforddiant 'Datblygu Sgiliau Caffael' wedi ei ddarparu'n fewnol i ddeiliaid cyllidebau a rheolwyr, gan gynnwys pwysigrwydd caffael moesegol a chyfrifol
- Fideo byr gan Lywodraeth Cymru ac e-ddysgu mwy manwl gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am y Cod Ymarfer ar gael i bob aelod o staff.
- Senarios dilema moesegol i gael eu rhannu ledled heddluoedd Cymru i wella ymwybyddiaeth o faterion moesegol ar draws yr heddluoedd.
- Mae'r proffil adrodd wedi cael ei godi i lefel strategol wrth i'r Grŵp Gweithredu a Gorffen adrodd ar gynnydd i Grŵp Sicrwydd Cyllid ar y Cyd Heddluoedd Cymru a Bwrdd Cydweithredu Cymru Gyfan.
- Mae recriwtio, hyrwyddo, cyfweld a phrosesau mewnol perthnasol eraill yn ystyried rhagfarn ddiarwybod ac yn annog arfer da o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Datblygwyd cynllun cyfathrebu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r llwybrau atgyfeirio mewnol ar gyfer tynnu sylw at bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern ac mae staff wedi cael hyfforddiant ynglŷn â hyn.

Cynllun Cyflawni

Er mwyn datblygu ein hymroddiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ymhellach, mae gan gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o feysydd ar draws yr heddlu amcanion cytûn ar gyfer 2022-2023 sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu sy'n ategu'r datganiad hwn.

Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro trwy weithgor, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau, sydd hefyd yn Hyrwyddwr Gwrth-gaethwasiaeth a Moesegol Heddlu Gwent.

Mae gan y cyhoedd a staff yr un cyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnes sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag un o'r cyrff canlynol:

Heddlu Gwent: Ffoniwch 101 (neu 999 mewn argyfwng)

[Riportio trosedd | Heddlu Gwent](#)

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: Ffoniwch 0800 0121700

Crimestoppers: Ffoniwch 0800 555 111

Llinell Gyfrinachol ar gyfer Pryderon, Safecall 0800 9151571 (cyflogeion Heddlu Gwent yn unig)

Lawrlwythwch yr Ap 'Unseen' am ddim

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol



Jeff Cuthbert

Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gwent



Pam Kelly

Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent

